6ED O RAGFYR

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Sioeau Blwyddyn 1,2 a 3

Wythnos yma, rydym wedi mwynhau gwledd o berfformio yn gwylio disgyblion Bl 1,2 a 3 cymunedau Branwen, Pwyll a Manawydan yn perfformio "Sioe yr Anifeiliaid". Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn i bob sioe ac roedd yn hyfryd i wylio'r disgyblion yn mwynhau ar y llwyfan! Diolch i'r holl ddisgyblion wnaeth gyfrannu i'r sioeau ac am rannu neges hyfryd yn ein hatgoffa pam rydyn ni'n dathlu'r Nadolig. Diolch i'r staff am eu holl waith yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y sioeau. Diolch hefyd i chi rhieni am eich cefnogaeth barhaus ac am ddarparu'r gwisgoedd gwych. Mae'r gymuned yn rhan annatod o Ysgol Treganna a roedd yn hyfryd i allu croesawu ein teuluoedd i'r ysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr at sioeau Nadolig Bl 4,5 a 6 wythnos nesaf.

### Theatr y Sherman

Wythnos yma aeth disgyblion Bl 1 a 2 i wylio sioe "Yr Hugan Fach Goch" yn Theatr y Sherman, Caerdydd. Cafodd pawb amser wrth eu bodd a diolch i'r staff am drefnu ac i'r gwirfoddolwyr wnaeth ein cynorthwyo.

### Cinio Nadolig

Bydd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Mercher, y 18fed o Ragfyr. Cofiwch arhebu fel arfer ar Parent Pay.

### Diwrnod Siwmperi Nadolig

Byddwn yn codi arian i'r elusen Achub y Plant trwy wisgo siwmperi Nadolig i'r ysgol ar ddydd Iau'r 12fed o Ragfyr. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 i'w dalu trwy Parent Pay.

### Diwrnod HMS mis Ionawr

Cofiwch fod diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd gennym ar ddydd Llun, y 6ed o Ionawr. Bydd y disgyblion yn ail gychwyn ar ôl y gwyliau Nadolig ar ddydd Mawrth, y 7fed o Ionawr.

## Calendr

**Sioe Nadolig Pwyll Bl 4,5 a 6**
**10/12/24**

**Sioe Nadolig Branwen Bl 4,5 a 6**
**11/12/24**

**Sioe Nadolig Manawydan Bl 4,5 a 6**
**12/12/24**


**Bws Beic**
**13/12/24**


**Diolch yn fawr i gwmni "Laura's" yn Nhreganna am ein coed.**

## Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Diolch i'r GRhA a'r holl wirfoddolwyr am gynnal Ffair Nadolig hyfryd yn yr ysgol dydd Sadwrn diwethaf. Rydym wir yn gwerthfawrogi eich ymdrechion i godi arian i'r ysgol.

Cofiwch brynu tocynnau raffl o siop y GRhA. Bydd y tocynnau ar werth tan y 9fed o Ragfyr.




Linc i siop y GRhA

[https://ysgol-gymraeg-treganna-parent-teacher-association.sumupstore.com](https://ysgol-gymraeg-treganna-parent-teacher-association.sumupstore.com)

## Sioeau Nadolig Bl 4,5 a 6

Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r ysgol wythnos nesaf ar gyfer sioeau Nadolig Bl 4,5 a 6.

Cofiwch fod disgyblion Bl 4,5, a 6 yn aros ar gyfer y tair noson. Ond prynwch docyn ar gyfer noson cymuned eich plentyn.

## Ymgeisio am le yn y dosbarth Derbyn 2025

**Os ydych yn nosbarth Math/ Meithrin, cofiwch fod dal angen i chi ymgeisio am le yn y dosbarth Derbyn ar gyfer Medi 25.**

**Dyma'r linc ar gyfer ymgeisio am le:**
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Ysgol-Gynradd/Pages/default.aspx

**Bydd angen ymgeisio am le cyn y 13eg o Ionawr.**

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Wyt ti eisiau…?
Ydw/ Dim diolch

**Her**
Hoffwn i… oherwydd…

**Testun trafod yr wythnos**
Cymwynas dda wnes i heddiw oedd…

**Cân yr wythnos**
Mei Gwynedd & Plant Ysgol Treganna - Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

**Idiom yr wythnos**
Dyfal donc a dyr y garreg.